Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Trawsfynydd
# YMCA
# Trawsfynydd
# Gwynedd
# LL41 4SE

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:
**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Trawsfynydd yn lleoliad meithrin cofrestredig sydd yn darparu addysg cyn-ysgol i blant pentref Trawsfynydd a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'n cyfarfod mewn neuadd fechan yn y pentref sydd hefyd yn cael ei defnyddio gan fudiadau eraill yn ystod yr wythnos.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, roedd ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu sesiynau. Ar hyn o bryd, nid oes yr un plentyn o dras ethnig wedi'i gofrestru yn y lleoliad. Cymraeg yw prif iaith y cartref i bron pob plentyn.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed. Mae pedwar plentyn yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. .

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd ac ymarferydd ac maent wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2013 a chan Estyn yn Hydref 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn ansawdd y cwricwlwm;
- ystod eang o brofiadau dysgu yn cymell plant i fentro ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd;
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- ymyrraeth bwrpasol ymarferwyr yn symud y dysgu yn ei flaen;
- trefniadau asesu trylwyr yn galluogi ymarferwyr i gynllunio camau nesaf yn nysgu plant;
- cyfleoedd mynych i blant wneud penderfyniadau personol ynghylch eu dysgu;
- ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir yn ystod sesiynau; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- brwdfrydedd ac ymrwymiad yr arweinydd yn creu amgylchedd ddysgu cadarnhaol;
- ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm;
- gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawniadau a lles plant;
- yr adroddiad hunan-arfarnu ynghyd â'r cynllun gwella, o ansawdd da;
- hunan-arfarnu wedi arwain at welliannau yn ansawdd cynllunio ac asesu; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da arian.

## Argymhellion

A1. Arfarnu effaith y cynllun gwella ar safonau a darpariaeth.

A2. Darparu mwy o gyfleoedd i blant ymestyn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn ansawdd y cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol a symbylol sy'n annog plant i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu yn cymell plant i ffurfio perthnasau clos ag oedolion a phlant eraill, i fentro ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd. Mae'r cyfleoedd dyddiol sydd i blant wneud dewisiadau yn galluogi'r rhan fwyaf i wneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio pwrpasol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl da ar draws y meysydd dysgu. Yn ystod sesiynau torfol, mae plant yn cael eu hannog i wrando'n astud ar gyfraniadau plant eraill, i ofyn cwestiynau ac i siarad am faterion sydd o bwys iddynt hwy. Mae'r profiad o chwarae rôl yn ogof Elfed yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt arbrofi gydag iaith ac i ddod yn fwy hyderus yn eu gallu i gyfathrebu gyda phlant eraill. Yn ystod amser cylch, mae plant yn cael eu hannog i ymuno mewn rhigymau a chaneuon ac i rannu eu profiadau gyda gweddill y grŵp. Maent yn cael cyfleoedd dyddiol i ddilyn straeon sy'n cael eu darllen iddynt neu i ddarllen llyfr yn annibynnol. Mae cyfleoedd pwrpasol yn yr ardaloedd dysgu i blant arbrofi gyda gwneud marciau ar gyfer ystod eang o ddibenion, megis er mwyn ysgrifennu eu henwau neu lunio rhestrau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio rhigymau rhif a chaneuon mae'r plant wedi'u dysgu ar eu cof yn fedrus iawn i ddatblygu eu medrau ac i wneud y gwaith yn hwyl. Mae gweithgareddau megis gwneud jig-sos, adeiladu gyda blociau a defnyddio llinell rif arbrofi yn y cafn dŵr neu'r cafn tywod gyfraniad gwerthfawr tuag at ddatblygiad medrau rhifedd plant.

Er bod gan blant fynediad cyson i gyfrifiadur a theganau electronig, nid oes cyfleoedd digonol iddynt adeiladau ar eu medrau TGCh cyfredol.

Mae'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gonglfaen cadarn i holl brofiadau dysgu'r plant ac yn cyfrannu'n gryf tuag at ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol.

**Addysgu:  Da**

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen yn deillio ar ddysgu ac addysgu o safon uchel.  Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws pob maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu sy'n sicrhau ymglymiad plant i'w tasgau.  Mae cynllunio gofalus yn arwain at gydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion.  Mae'r defnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau yn denu diddordeb plant ac yn gwella dysgu.  Mae ffocws clir i gymorth oedolion ac mae hyn yn cyfrannu'n gryf at ansawdd y dysgu.

Mae ymarferwyr yn cyd-chwarae gyda'r plant yn rheolaidd, yn arbennig yn ystod tasgau ffocws, ac yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn herio syniadau plant a symud y dysgu yn ei flaen.  Maent yn fodelau iaith arbennig o dda ac yn annog plant i arbrofi gyda geiriau a gwella eu mynegiant llafar.   Mae hyn yn galluogi plant i wneud cynnydd da yn eu gwybodaeth ac yn arbennig yn eu medrau llythrennedd.

Mae ymarferwyr yn adnabod pob unigolyn yn dda ac, mae ganddynt wybodaeth gyfredol ynghylch eu cryfderau a'u hanghenion personol.  Mae ganddynt drefniadau effeithiol a chyson ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd plant ar draws y chwe maes dysgu.  Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n fuan os bydd plentyn angen cymorth ychwanegol ac i gynllunio camau nesaf yn nysgu plant.

Mae'r arweinydd yn adrodd i rieni ar gynnydd eu plant yn rheolaidd.  Mae pob rhiant yn derbyn adroddiad byr ar ddiwedd pob wythnos ac adroddiad arall manylach ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.  Trwy'r  llyfryn 'Fy Stori,' mae rhieni yn ogystal yn derbyn cofnod ffotograffig o gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu.  Mae'r rhain yn drefniadau effeithiol iawn ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach.  Mae'r profiadau dyddiol a gaiff plant wrth chwarae yn yr ardal y tu allan yn rhoi cyfleoedd da iddynt ymarfer eu medrau personol ac i gynyddu eu lefelau ffitrwydd.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol.  Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn nad sy'n iawn.  Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau, megis 'Helpwr Heddiw,' ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n dda tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r arfer o gymryd rhan mewn dathliadau megis Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth plant o draddodiadau diwylliannau eraill yng Nghymru.  Mae trefniadau effeithiol yn y lleoliad ar gyfer annog plant i weithredu'n gynaliadwy trwy ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff.

Mae'r lleoliad yn darparu llawer o gyfleoedd i blant arsylwi a rhyfeddu ar fyd natur.  Enghraifft ddiddorol iawn o hyn yw'r cyfle a gafodd plant i arsylwi ar gylch bywyd pili pala.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau.  Maent yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol megis gan seicolegydd addysg neu therapydd lleferydd, os bydd angen.

Mae ymarferwyr yn nodi anghenion dysgu plant yn fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad ac yn cydweithio'n agos gyda'r rhieni a'r awdurdod addysg er mwyn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni.  Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu i blant yn ystod sesiynau o ansawdd uchel ac yn sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad llawn i holl weithgareddau'r lleoliad.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal at bob maes dysgu a'r holl weithgareddau.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu gwerthoedd ac agweddau goddefgar sy'n sicrhau bod plant a staff yn rhydd o ymyrraeth.  Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigaeth angenrheidiol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd symbylus sy'n datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer pob maes dysgu ac maent wedi'u cyfatebu'n ofalus i anghenion datblygu a dysgu pob unigolyn.  Mae digon o le yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n cael ei defnyddio'n helaeth gan blant ac oedolion.  Er bod yr ardal y tu allan yn gymharol fechan, caiff ei ddefnyddio'n ddychmygus iawn gan ymarferwyr er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, i dyfu planhigion ac i chwarae rôl.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd helaeth o'r ardal leol ynghyd â'r llwybrau cyfagos, i atgyfnerthu profiadau dysgu plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd yn arwain at greu amgylchedd ddysgu cadarnhaol ble mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm.  Mae hyn yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mae rheolaeth dydd-i-ddydd yr arweinydd yn hynod o drefnus ac yn creu synnwyr cryf o ddiben i ddatblygiad y lleoliad.  Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n drylwyr.  Mae gan staff

ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol yn ystod sesiynau.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso staff yn drylwyr ac yn arwain at adnabod anghenion hyfforddiant pob unigolyn.  Mae'r berthynas gadarnhaol sydd rhwng y lleoliad â phlant a'u rhieni a chyda'r ysgol gynradd, sy'n cyfrannu'n gryf tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n drylwyr.  Mae swyddogion y pwyllgor yn ymgynghori ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weinyddiaeth y lleoliad.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu.  Drwy anogaeth yr arweinydd, maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella.  Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.  Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol.  Mae'r arfer o neilltuo amser i blant fynegi barn am y sesiwn gyda'r arweinydd yn  sicrhau bod llais y plentyn yn rhan anhepgor o drefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

Gall ymarferwyr ddangos sut mae hunan-arfarnu wedi'u galluogi i wneud gwelliannau arwyddocaol i ansawdd cynllunio ac asesu.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu ynghyd â'r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad.  Bydd yr arweinydd yn sicrhau bod y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun yn cael eu gweithredu'n systematig a thrylwyr yn ystod y flwyddyn.  Er hynny, nid oes trefniadau digon clir gyfer arfarnu effaith y cynllun gwella ar safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawniadau a lles plant.  Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i geisio'u cynnwys yn yr holl weithgareddau mae'n ei drefnu.  Mae llawlyfr rhieni yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn rhoi cyngor i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant gartref.  Mae'r llyfrynnau deniadol a gynhyrchwyd i rieni yn ddiweddar ar gyfer eu helpu i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd eu plant, yn nodwedd ragorol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo plant i'r dosbarth meithrin ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Mae arfer o wahodd pentrefwyr, er enghraifft ffermwr, i ddod i'r lleoliad i rannu eu profiadau a'u medrau gyda'r plant, yn cryfhau ymglymiad y plant i'w cymuned leol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau.  Mae'r ymarferwyr

yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff sy’n cyfrannu’n dda tuag at adnabod anghenion proffesiynol ymarferwyr.  Mae'r sesiynau hyfforddi rheolaidd sy’n cael eu cynnal gan yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau.  Bu hyfforddiant diweddar yn gymorth mawr i’r lleoliad addasu ei ddulliau asesu er mwyn cydymffurfio ag arweiniad diweddaraf yr awdurdod addysg.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod gofal a chynhaliaeth dda ar gael i bob plentyn.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl iawn o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |